

## Gallwn ni ddatgloi pŵer gwirfoddoli

helplu  

---

helpforce

**Mae Dr Fiona Liddell, Rheolwr Helplu Cymru yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), yn dadlau bod angen i wirfoddolwyr fod yn rhan o'r ateb i'n hargyfwng ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn awgrymu sut gallwn ni ddechrau datgloi pŵer gwirfoddoli.**

Mae'r pandemig, yn bendant, wedi codi proffil gwirfoddoli a chynyddu ei bosibiliadau.

Sut bydden ni wedi gofalu am y rheini a oedd yn agored i niwed neu'n gwarchod gartref, neu redeg ein canolfannau brechu torfol, heb y miloedd o wirfoddolwyr parod a gymerodd ran, drwy eu Bwrdd Iechyd, mudiad gwirfoddol neu grŵp cymunedol lleol? Roedd gwirfoddoli, yn ôl pob golwg, yn hanfodol i'n gwasanaethau iechyd a gofal ac yn elfen dyngedfennol o wydnwch cymunedol.

Datblygwyd y Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnal y momentwm a gafwyd yn ystod y pandemig. 'Ein nod', meddai Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth lansio'r Fframwaith, 'yw sicrhau bod gwirfoddoli yn cael ei weld fel rhan annatod a gwerthfawr o weithlu iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol, gan integreiddio gwirfoddoli yng ngwead ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd cydlynol'.

Rydyn ni'n siarad nawr am 'adfer o Covid', ond, yn rhyfeddol, ychydig iawn rydyn ni'n ei glywed am sut gall gwirfoddolwyr fod yn rhan o 'wead ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol', wrth symud ymlaen. Ac, yn ôl pob golwg, rydyn ni'n parhau i wynebu argyfwng yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gyda phwysau ar staff a systemau nad yw'n dangos unrhyw arwydd o wella yn y dyfodol agos.

### **A all gwirfoddolwyr fod yn rhan o'r datrysiad?**

Gweledigaeth Helplu yw am wirfoddoli wedi'i ddylunio'n synhwyrol sy'n tyfu ar raddfa fawr, a danategir gan seilwaith gwirfoddoli cadarn, llawn adnoddau. Mae'n rhaid i hyn ymwneud â mwy nag ymrwymo cyllid tymor byr i brosiectau gwirfoddoli at ddibenion penodol, waeth pa mor dda a gwerth chweil y gallai pob un ohonynt fod yn unigol.

Yn ei ymgyrch gyfredol, "Back to Health – unlocking the power of volunteering across health and care" (Gwella - datgloi pŵer gwirfoddoli ar draws y maes iechyd a gofal) (Saesneg yn unig), mae Helplu wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid sy'n rhannu'r uchelgais hwn, gan eu cefnogi i ddylunio rolau gwirfoddolwyr, casglu

tystiolaeth o effaith ac i ddatblygu achos busnes er mwyn dylanwadu ar gymorth arweinwyr i gael buddsoddiad pellach. Mae'r cynnig hwn ar gael i bartneriaid yng Nghymru hefyd ac mae'n rhad ac am ddim.

Os gall gwirfoddoli, fel y credwn ni, fod yn rhan o'r ateb, mae angen i ni fynd ati mewn modd eang, gan gydnabod yr ecosystem sy'n unigryw i wahanol ranbarthau ac sy'n cynnwys chwaraewyr amrywiol. Mae angen i wirfoddoli fod ar agenda mudiadau sy'n darparu iechyd a gofal, yn ogystal ag ar yr agenda cynllunio aml-sector.

Yn aml, gall partneriaethau rhwng mudiadau ddarparu'r atebion: yr adnoddau, yr arbenigedd, y llwybrau gofal hyblyg ond cydgysylltiedig, sydd y tu hwnt i gyrraedd unrhyw fudiad unigol – boed y rheini o'r GIG, y llywodraeth leol neu'r sector gwirfoddol.

### **Fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae'r [Fframwaith](#) yn annog pobl i feddwl o'r newydd ac i edrych yn eang ar ble a sut y gall gwirfoddolwyr chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu neu wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n mynd i'r afael â chwe chwestiwn allweddol ynghylch gwirfoddoli - gan gynnwys pwy ddylem ni weithio gyda nhw a sut rydyn ni'n mesur effaith gwirfoddoli. Mae'r wybodaeth wedi'i theilwra i bedair cynulleidfa benodol: cynllunwyr a chomisiynwyr, mudiadau darparu, cyrff seilwaith a grwpiau cymunedol.

Gall darllenwyr ddilyn llwybr sy'n ystyried pob un o'r cwestiynau ar gyfer dim ond un o'r cynulleidfaoedd hyn, neu gallant edrych ar gwestiwn allweddol o safbwyntiau gwahanol. Mae dolenni at adnoddau, adroddiadau ymchwil ac astudiaethau achos.

Mae ymarferiad hunanasesu wedi'i gynnwys (mae un ar gyfer pob un o'r pedair cynulleidfa darged) er mwyn galluogi mudiadau i nodi'r camau y gallant eu cymryd i gynnal a gwella statws gwirfoddoli.

Mae defnyddio'r hunanasesiad yn ffordd dda o adnabod a dathlu'r hyn rydyn ni eisoes yn ei wneud yn dda ac o nodi cyfleoedd i gyflymu, arallgyfeirio neu wella effaith gwirfoddoli – fel y gall gwirfoddolwyr chwarae eu rhan yn fwy effeithiol yn iechyd a gofal cymdeithasol ein cymunedau.

Os hoffech chi drafod y defnydd o'r Fframwaith neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn manteisio ar y gwasanaethau cymorth a gynigir gan Helplu, cysylltwch â Fiona drwy anfon e-bost at [fliddell@wcva.cymru](mailto:fliddell@wcva.cymru).

Mae Helplu Cymru yn gweithio gyda Chefnogi Trydydd Sector Cymru (CGGC a 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol), Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu potensial gwirfoddoli i gynorthwyo gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ewch i [dudalen we Helplu Cymru](#), neu [cofrestrwch yma](#) i gael diweddariadau ar e-bost (dewiswch yr opsiwn 'gwirfoddoli iechyd a gofal').